

Tyfu Cymru: Taflen Cyngor Technegol

Systemau Archebu Ar-lein ar gyfer Pigo Eich Cynnyrch Eich Hun

Archebu Ymlaen Llaw

Gall rheoli nifer yr ymwelwyr sy'n dod i'ch safle brofi'n her allweddol wrth redeg busnes pigo eich cynnyrch eich hun ond eto mae'n un sy'n hawdd i'w goresgyn trwy gynllunio. Yn ogystal â sicrhau'r gallu i gadw pellter cymdeithasol, bydd system archebu yn cynnig nifer o fanteision ychwanegol i sicrhau eich bod yn bodloni eich cwsmeriaid ac yn derbyn yr arian gorau am eich cynnyrch. Er enghraifft, gall rheoli nifer yr ymwelwyr i'ch safle fod yn hanfodol i gynnal profiad da i'r cwsmer trwy sicrhau nad yw eich cyfleusterau (megis meysydd parcio) yn cael eu gorlethu ac er mwyn osgoi'r siom o orfod gwrthod pobl wrth y giât. Gall hyn helpu'n ogystal i gydbwysu cyflenwad a galwad trwy gydweddu nifer yr ymwelwyr i'r cyflenwad o ffrwythau neu bwmpenni aeddfed sydd ar gael yn y caeau ar ddiwrnod penodol.

Tra bod archebu ar-lein ymlaen llaw wedi dod yn fwyfwy cyffredin, bydd rhaid i chi gynnwys negeseuon clir ynglŷn â'r broses archebu, yn enwedig os mai ar-lein yw'r unig ddull o archebu sy'n cael ei gynnig. Argymhellir yn gryf hefyd y dylid codi tâl ar y cwsmer am archebu ymlaen llaw er mwyn lleihau'r risg o bobl yn peidio ag ymddangos ac i'ch helpu i adennill costau'r system archebu. Fodd bynnag, mae llawer o dyfwyr yn defnyddio system cyfnewid sy'n cynnig taleb gwerth pris y tocyn i'r cwsmer y gellir ei defnyddio yn erbyn pris y ffrwythau maen nhw'n eu prynu. Bydd cyfathrebiad clir o'r broses archebu yn helpu i sicrhau bod eich cwsmeriaid yn cael ymweliad hwylus a phleserus i'ch safle.

Sefydlu System Archebu

Er bod yna nifer o systemau archebu sy'n hawdd eu gosod, bydd angen i chi feddwl yn ofalus am sut i'w hintegreiddio i'ch busnes i fwynhau'r holl fanteision. Gallwch ddewis cynnig archebu ar-lein yn unig neu gyfuniad o archebu ar-lein a mynediad wrth y giât, ond bydd y dewis cyntaf yn caniatáu i chi reoli nifer yr ymwelwyr yn well. Gall archebu ymlaen llaw hefyd gyflymu'r mynediad i safleoedd sy'n codi tâl safonol ar ymwelwyr. Mae'r cyhoedd i raddau helaeth wedi cofleidio archebu digwyddiadau ymlaen llaw yn sgil rheoliadau covid, ond gall hwn apelio'n ogystal at gwsmeriaid sy'n cynllunio trip undydd yn ystod adegau prysur o'r flwyddyn - bydd hwn yn berthnasol iawn i bwmpenni a choed Nadolig sydd â chyfnod marchnata byr ond prysur. Bydd rheoli archebion hefyd yn helpu i sicrhau bod y cwsmer yn cael profiad da unwaith maen nhw ar y safle drwy osgoi cael gormod o bobl a thrwy sicrhau bod digon o gynnyrch ar gael i fodloni'r galwad disgwylidig: gellir derbyn mwy o gwsmeriaid pan fod llwyth o ffrwythau'n aeddfedu neu gyfyngu ar y niferoedd er mwyn caniatáu amser i ailstocio'r bwmpenni yn y cae.

Hanfodion System Archebu

Dull cyffredin yw strwythuro'r diwrnod yn gyfres o slotiau amser gyda phob un yn cynrychioli digwyddiad i'r cwsmer gael archebu lle. Bydd rhif penodol o docynnau ar gael am bob slot, i ddynodi cyfanswm yr ymwelwyr a ganiateir ar unrhyw un adeg. Wedyn, bydd cwsmeriaid yn cyrraedd y safle ar yr amser a gytunwyd, yn pigo a thalu am eu cynnyrch ac yn gadael o fewn yr amser penodedig. Ar ôl archebu, bydd y cwsmer yn derbyn e-bost o gadarnhad y gellir ei ddangos wrth gyrraedd y safle. Mae sawl gwasanaeth yn cynnig cod QR cyflym y gellir ei sganio gyda ffôn clyfar am fynediad cyflym.

Ar ôl i'r ymwelydd gyrraedd a chofrestru, efallai y byddwch am gyflwyno iddynt unrhyw daleb neu gwpon sy'n gynnwysedig ym mhrys y tocyn - bydd hwn hefyd yn cyflymu'r broses o dalu wrth y til oherwydd gellir eu cyfnewid yn gyflym am y ffrwythau. Bydd llawer o systemau hefyd yn cysylltu ag

ap symudol sy'n caniatáu prosesu gwerthiant tocynnau wrth giât y fferm os ydych am ddefnyddio tocynnau i'r rhai sy'n archebu ymlaen llaw ac i'r rhai sy'n galw i mewn.

Mae hyn yn cadw rheolaeth ar faint o bobl sy'n cael mynediad i'r safle yn ogystal â rheolaeth ar faint sy'n debygol o fod ar y safle ar unrhyw adeg benodol. Bydd hwn yn gadael i chi wybod sawl person sydd i'w disgwyl (a phryd) ac yn helpu i chi gynllunio ymlaen llaw lefelau staff a faint o gynnyrch sydd ar gael. Bydd system archebu hefyd yn cynnig amrywiaeth o swyddogaethau ychwanegol megis creu digwyddiad yn awtomatig sy'n hwyluso creu digwyddiadau dyblyg ar draws nifer o wahanol ddyddiadau, penodi dyddiadau ar gyfer agor y broses archebu a chynhyrchu data o'r archebion.

Er bod llawer o systemau archebu ar gael, maent i gyd yn debyg o ran gweithrediad - cyflwynir calendr i'r cwsmer sy'n dangos y slotiau sydd ar gael, wedyn maen nhw'n dewis a thalu am y slot ac yn derbyn tocyn electroneg drwy e-bost. Defnyddir hwn wedyn i'w derbyn wrth gyrraedd i gynnig mynediad cyflym ac esmwyth i'r safle. Gall y data a gasglwyd yn y broses archebu gael ei ddefnyddio yn ogystal ar gyfer unrhyw ofynion olrhain a diogelu, a fydd eto'n cyflymu mynediad i'ch safle.

Dewis System Archebu

Mae yna ddau ddull allweddol o weithredu system tocynnau: defnyddio gwefan tocynnau trydydd parti neu ddefnyddio plattform yn seiliedig ar ap a'i integreiddio i'ch gwefan - ceir esboniad o'r ddau isod. Er bod gwahaniaeth o ran gosod a chostau, yn gyffredinol mae'r ddau'n gweithio yn yr un modd. Mae'r ddau'n defnyddio systemau parod er hwylustod, a gellir eu hintegreiddio'n hawdd i'ch dulliau marchnata presennol, gan gynnwys eich gwefan pwrpasol neu bresenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol. Mae'r systemau'n defnyddio un pecyn i ymdrin â phob agwedd ar archebu, o ddewis slot hyd at brosesu taliadau, sy'n hwyluso'r profiad archebu i'r cwsmer. Efallai y byddwch am ystyried hefyd pryd yr ydych yn derbyn taliadau am werthiant ar-lein - mae rhai gwasanaethau yn talu fesul trafodiad, tra bod eraill yn talu ar ôl y digwyddiad. Ni fydd rhai gwasanaethau yn codi tâl os ydych yn cynnig tocynnau yn rhad ac am ddim, sy'n golygu bod gennych system archebu ddigost.

Systemau Archebu yn seiliedig ar Wefan

Os ydych eisoes yn cynnal gwefan ar gyfer eich busnes, mae yna amrywiaeth o ategion ar gael i'w cynnwys ar eich gwefan. Ar ôl eu gosod, bydd y systemau hyn yn rhatach i'w rhedeg oherwydd dim ond taliadau bach misol am y wefan a chostau trafod cerdyn y bydd angen yn hytrach na gorfod talu canran o'r gwerthiant tocynnau sy'n gysylltiedig â'r plattfformau annibynnol y soniwyd amdanynt uchod. Gall hyn hefyd integreiddio'n esmwyth y broses archebu fel rhan o'ch hyrwyddiad busnes ehangach a chyfathrebiadau â'r cwsmer, megis gwybodaeth i ymwelwyr.

Ategy'n yw'r ap **WooCommerce Box Office** (www.woocommerce.com) sydd wedi'i gynllunio i'w osod ar wefan WordPress ac sy'n cynnig system gyflawn ar gyfer gwerthu tocynnau gan gynnwys calendr y gall y cwsmer ei bori cyn dewis ei slot amser. Cost yr ategyn yw \$129 y flwyddyn (oddeutu £8/mis). Mae hyn hefyd yn cynnig ystod o wahanol fathau o docynnau ar gyfer gwahanol weithgareddau (e.e. pigo pwmpenni yn unig, neu slot hirach i bigo a cherfio ar y safle) a hefyd yn eich caniatáu i amrywio prisiau ar wahanol adegau o'r tymor.

Ategy'n arall tebyg yw **BookThatApp** (www.bookthatapp.com) sydd wedi'i gynllunio i weithio gyda phlattform Shopify sy'n gallu trafod niferoedd uwch o gwsmeriaid (a allai fod yn fwy addas ar gyfer safleoedd tymhorol) er ei fod ychydig yn ddrytach gyda'r pris yn dechrau o £14/mis. Hefyd, bydd gan y gwasanaethau hyn eu hopsiynau eu hunain am brosesu taliadau neu maent yn caniatáu cysylltu â gwasanaethau eraill megis PayPal neu Square.

Gwasanaethau Tocynnau Trydydd Parti

Dull symlach yw defnyddio system archebu trydydd parti, gyda nifer o blatfformau'n cynnig systemau gwerthu tocynnau syml i fusnesau bach. Mae hwn yn debygol o fod yn opsiwn ychydig yn ddrytach ac mae'n bosib y byddant yn codi tâl safonol am bob tocyn neu'n cynnig pris safonol (er gellir cynnwys

hyn ym mhreis tocyn y cwsmer mewn rhai achosion). Mae rhai gwasanaethau'n gofyn am daliad misol, a all fod yn opsiwn llai costus mewn achosion o ddefnydd prin yn ystod y tymor, er byddai'r rhan fwyaf o wasanaethau yn codi tâl fesul tocyn neu fesul trafodiad. Er bod y gwasanaethau hyn yn ddrytach na'r opsiwn o system archebu integredig fel yr apiau a drafodwyd uchod, maent yn hawdd a chyflym i'w defnyddio a does dim angen unrhyw waith technegol cyn dechrau. Dyma'r opsiwn gorau hefyd os nad oes gwefan gennych, a gellir eu cysylltu'n uniongyrchol â thudalen cyfryngau cymdeithasol fel Facebook.

	<p>Merlin Tickets - www.merlintickets.co.uk</p> <p>Yn cynnig plattform hawdd ei ddefnyddio ar gyfer gwerthu tocynnau ar sail calendr, gan gynnwys rhyngwyneb ar gyfer ffonau symudol. Cyflym i'w baratoi a gyda chostau isel. Taliadau i'w cymryd yn syth ar ôl cadarnhau'r archeb.</p> <p><i>Codir tâl o 2.5% o werthiant y tocynnau i'w talu'n fisol yn ddyledus.</i></p>
	<p>TicketSource - www.ticketsource.co.uk</p> <p>Pecyn cyflawn ar gyfer gwerthu tocynnau ar-lein, gan gynnwys archebu fesul calendr, gwahanol fathau o docyn, tocynnau y gellir eu hargraffu gartref neu eu harddangos ar ffôn symudol, a gellir ei gysylltu â gwerthiant tocynnau wrth y giât. Taliadau i'w cymryd yn yr wythnos ar ôl y digwyddiad.</p> <p><i>Codir tâl o 7.5% + TAW y tocyn, gydag isafswm taliad o 25c + TAW y tocyn.</i></p>
	<p>Eventbrite - www.eventbrite.co.uk</p> <p>Yn cynnig gwasanaeth cynhwysfawr ar gyfer gwerthu tocynnau gydag amrywiaeth o becynnau i weddu i'r gofynion. Mae hyn yn cynnwys tocynnau digidol a phrintiedig, y gallu i brosesu digwyddiadau cylchol a gwerthiant tocynnau wrth y giât. Mae pecynnau lefel uwch yn cynnwys gwahanol fathau o docynnau.</p> <p><i>Mae'r gost yn amrywio fesul pecyn: Cost tocyn pecyn "Essentials" yw 49c + 3.5% TAW, cost tocyn pecyn "Professional" yw 49c + 6.5% TAW. Ni chodir tâl am ddigwyddiadau sy'n rhad ac am ddim.</i></p>
	<p>Digitickets - www.digitickets.co.uk</p> <p>Pecyn gwerthu tocynnau annibynnol sy'n cynnig ystod eang o swyddogaethau gan gynnwys gwasanaeth ar sail calendr lle mae'r pris yn ddibynnol ar y dyddiad ac yn cynnig tocynnau y gellir eu hargraffu gartref neu eu harddangos ar ffôn symudol.</p> <p><i>Cost yn cynnwys taliad o £1.5k i sefydlu'r system annibynnol, gyda chost ychwanegol o 50c y tocyn, £1.50 y trafodiad neu gyfanswm o 5% am y pecyn sylfaenol.</i></p>
	<p>BookWhen - www.bookwhen.com</p> <p>Gwasanaeth gwerthu tocynnau â'r taliad yn fisol, sy'n cynnig archebu ar sail calendr, gwahanol fathau o docynnau ac amserlen gylchol o werthu.</p> <p><i>Pecynnau yn cynnig 300 (£9+TAW), 800 (£19+TAW) neu 1800 (£39+TAW) tocyn y mis.</i></p>

Cynllunio Slotiau Archebu

Dylai pob slot amser fod yn ddigon hir i'ch cwsmer gael cyfle da i fwynhau eich safle ond ddim yn rhy hir fel bod amser yn cael ei wastraffu. Gallwch benodi'r slot yn ôl pa mor hir y byddwch yn disgwyl i'r cwsmer fod ar eich safle - er enghraifft, gallwch benodi 60 munud ar gyfer pigo ffrwythau meddal neu 30 munud ar gyfer pwmpenni (er os oes gennych gyfleusterau fel caffi lle byddwch yn fodlon i'r cwsmer oedi am ychydig, yna gallwch egluro a yw'r amser a ganiateir yn cyfeirio at y safle yn ei gyfanrwydd neu at yr ardaloedd pigo yn unig). Gallwch wedyn strwythuro'r diwrnod fel cyfres o

ddigwyddiadau 30 neu 60 munud ar wahân y gall cwsmeriaid brynu tocyn ar eu cyfer. Efallai y byddech chi hefyd eisiau rheoli pryd i ddechrau gwerthu tocynnau. Yn achos cnydau sydd â chyfnod marchnata penodol, fel pwmpenni a choed Nadolig, gallwch ddechrau'r proses archebu wythnosau (os nad misoedd) ymlaen llaw, ond yn achos ffrwythau meddal, efallai y byddwch am aros nes rhai dyddiau ymlaen llaw yn unig cyn rhyddhau tocynnau. Mae hyn yn golygu y gallwch dderbyn archebion i gyd-fynd â pharodrydd y ffrwythau a chaniatáu'r cwsmer i amseru ei ymweliad yn ôl rhagolygon y tywydd.

Hysbysebu ac Ymwybyddiaeth o'r Cwsmer

Os ydych yn agor y system archebu ychydig ddiwrnodau ymlaen llaw yn unig, dylech hysbysebu hyn yn glir ar eich deunydd hyrwyddo i sicrhau bod cwsmeriaid yn gallu archebu pan fo'r angen. Gall hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol pan fod slotiau ar gael, yn enwedig ar gyfer penwythnosau sy'n addo tywydd braf neu pan fod cynnyrch newydd ar gael i'w pigo, fod yn ffordd dda o ymgysylltu â chwsmeriaid. Fel rhan o'r broses archebu, dylech gynnwys esboniad o'r modd y bydd cwsmeriaid yn derbyn eu tocynnau (dylech osgoi tocynnau printiedig, ond mae tocynnau ar gyfer ffonau symudol yn gyffredin iawn) a sut i'w defnyddio i gael mynediad i'r safle. Efallai yr hoffech hefyd gynnwys y gallu i archebu ar-lein ar unrhyw daflenni neu ar arwyddion a ddefnyddir ar gyfer hysbysebu ar ochr y ffordd, yn enwedig os ydych chi'n caniatáu archebu ymlaen llaw yn unig.

Dylech hefyd gyflwyno telerau ac amodau clir wrth i bobl archebu. Gall hyn gynnwys unrhyw ofynion am fesurau atal covid a chyfyngiadau ar faint o bobl sydd mewn grŵp (os nad yw'n gysylltiedig â phris y tocyn). Efallai yr hoffech hefyd nodi amser penodol i gyrraedd y safle (e.e. dim mwy na 10 munud ymlaen llaw), eich polisi ar gyrraedd yn hwyr a chanslo, a therfynau clir o ran faint o amser y gallant ddisgwyl ei dreulio ar y safle. Mae hwn yn gyfle da hefyd i wneud y cwsmer yn ymwybodol o sut mae'r broses 'pigo eich hun' yn gweithio, fel pigo a thalu am bwysau gyda phrisiau wedi'u hysbysebu am ffrwythau ffres. Bydd rhai systemau archebu hefyd yn cynnig y gallu i gadw manylion y cwsmer (gyda'r gydymffurfiaeth GDPR angenrheidiol) ar gyfer marchnata drwy e-bost. Felly, gall hyn fod yn ffordd gyfleus o gynnal rhestr o gyfeiriadau e-bost er mwyn cyfathrebu.

Prisio

Argymhellir codi tâl bychan ynghlwm wrth archebu ar-lein er mwyn neilltuo lle. Gall hyn fod mor isel ag un taliad o £2 er mwyn helpu adennill y gost o gynnal y gwasanaeth archebu, neu swm uwch megis £5 neu £10 am bob grŵp. Bydd prisiau uwch am docynnau yn lleihau'r risg o bobl yn peidio ag ymddangos, ond efallai y byddwch am ystyried cysylltu hwn â chynnyrch neu wasanaeth penodol unwaith mae'r cwsmer ar eich safle. Er enghraifft, gellid dychwelyd cost y tocyn fel taleb arian i ffwrdd wrth y til (i ddigolledu am bris y tocyn) neu gall pris y tocyn fod yn gysylltiedig ag archebu digwyddiad neu weithgaredd megis y cyfle i gerfio pwmpen neu i neilltuo bwrdd picnic. Bydd hwn hefyd yn sicrhau isafswm gwariant fesul grŵp ac yn cynyddu'r enillion. Mae nifer o wasanaethau yn cynnig amrywiaeth o wahanol brisiau am docyn a gall y rhain fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer safleoedd sy'n cynnig ystod o weithgareddau ar wahân i 'bigo eich hun', megis cerfio pwmpenni neu Groto Siôn Corn ar safleoedd sy'n gwerthu coed Nadolig. Efallai yr hoffech nodi bod angen tocyn ar bob parti (e.e. un tocyn ar gyfer grŵp o hyd at chwech o bobl) neu fesul person. Os ydych yn codi tâl fesul person, gallwch ystyried cynnig gostyngiad pris neu docynnau yn rhad ac am ddim i blant, neu gynnwys mynediad plentyn gyda phob tocyn oedolyn.

Crynodeb

Gall gosod system gwerthu tocynnau fod yn gyflym ac yn rhwydd, ac er efallai y bydd angen ychydig o gynllunio wythnosol, yn fuan iawn gall hwn ddod yn rhan arferol o redeg eich busnes a bydd yn cydweddu gydag unrhyw wefan gyfredol neu gyfathrebiadau cyfryngau cymdeithasol sydd gennych i ddenu cwsmeriaid. Er y bydd y dull hwn yn ddefnyddiol iawn gyda'r sefyllfa bresennol o gadw pellter

cymdeithasol, rydych yn debygol o elwa o fanteision ehangach y system archebu ymlaen llaw i'r fath raddau fel ei bod hi'n werth ei gadw am yr hirdymor.

Ymwadiad

Gwneir pob ymdrech i sicrhau cywirdeb y wybodaeth a'r argymhellion a roddir yn y nodiadau hyn gyda'r wybodaeth a ddarperir yn gywir adeg ei ysgrifennu. Darperir y deunydd uchod er gwybodaeth yn unig ac nid yw'n cymeradwyo nac yn hyrwyddo'r gwasanaethau a ddisgrifiwyd. Argymhellir bod tyfwyr yn ymchwilio'n llawn i brisiau ac opsiynau o ran gwerthu tocynnau cyn gwneud penderfyniad. Mae mentora datblygu gwefan a busnes ar gael yn rhad ac am ddim ar gyfer tyfwyr cymwys drwy raglen Tyfu Cymru, cysylltwch â ni i drefnu apwyntiad – mae cyngor drwy e-bost/dros y ffôn hefyd ar gael.